CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION o gyfarfod Llawn y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 6:30 o'r gloch, **NOS LUN**, **1af o HYDREF 2018** yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llangefni.

PRESENNOL:

Cyng. Ieuan G. Davies - Maer	
Cyng. Margaret Thomas - Dirprwy Faer	Cyng. Dylan W. Rees
Cyng. Llinos Glyn Jones	Cyng. Donna Catrin Jones
Cyng. Terry Jones	Cyng. John Huw Owen
Cyng. John Lee	Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. John Egryn Lewis	Cyng. Non Wyn Parry
Cyng. Christine Roberts	Cyng. Victor Hughes

CLERC: Rhys Parry
Linda Powell – Cymorthydd Clerigol

18/140 **YMDDIHEURIADAU :** Heddlu -
Cyng. J. Egryn Lewis yn ymddiheuro fod rhaid iddo adael y Cyfarfod am 7.00y.h.

18/141 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :**

1 Cyng. Dylan Rees - Eitem 18/143 - Cyflwyniad gan Fenter Gymdeithasol Llangefni

2 Cyng. J. E. Lewis Eitem 18/143 - Cyflwyniad gan Fenter Gymdeithasol Llangefni

18/142 **ADRODDIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

1 **Difrod i'r Lawnt Bowlio :** Yn dilyn difrod eto yn ddiweddar i'r Lawnt Bowlio, Clerc yn adrodd fod y mater wedi cael ei anfon ymlaen at 101 - Llinell ddifrys yr Heddlu.

18/143 **CYFLWYNIADAU :**

1 **Ardal Pen Derwydd – Eitem 18/156.4 o'r Rhaglen :**
Cyflwyniad gan drigolyn yn pryderu ynglŷn â mynediad tu cefn i'w eiddo sydd yn cael ei gamddefnyddio gan blant fel llwybr byr i'r Cae Chwarae cyfagos.
Mae ymddygiad y plant yn annerbyniol gydag ysbwriel yn cael ei adael o gwmpas yr ardal.
Cyng. Dylan Rees yn Cynnig a Cyng. J. Egryn Lewis yn Eilio'r canlynol :

(a) I dynnu sylw'r Heddlu i'r uchod gan ofyn iddynt batrolio'r ardal yma
(b) I edrych ar gael system CCTV Symudol.

PENDERFYNWYD - Derbyn yr uchod. Clerc i ysgrifennu at berchennog ffens y terfyn, yn tynnu sylw at gyflwr y ffens, a gofyn i waith atgyweirio gael eu wneud.

Aelod yn awgrymu hefyd fod angen rhoi terfyn iawn o gwmpas y Maes Chwarae cyfagos dros gyfnod o 2-3 mlynedd.

2 **Menter Gymdeithasol Llangefni :** Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen 07.12.2018
Cyflwyniad gan Gynrychiolwyr y Fenter Gymdeithasol i roi syniadau ymlaen i gyd-weithio gyda'r Cyngor Tref ac i ofyn am gyfraniad ariannol.

Maer yn diolch i'r Cynrychiolwyr am eu cyflwyniad a hwythau yn gadael y Siambr.

Trafodaeth fanwl yn dilyn a chytunwyd fod y Cyngor Tref yn cyfrannu tuag at y Noson trwy ariannu'r Goleuadau Nadolig wrth gynnal a chadw a phrynu Goleuadau newydd fel bo angen. Cyng. Arwel Môn Hughes yn cynnig a Cyng. Non Parry yn eilio'r canlynol :

(a) Rhoi cyfraniad ariannol o weddill o gyllid y Goleuadau Nadolig 2018;
(b) Cefnogaeth ymarferol gan y Cynghorwyr.

PENDERFYNWYD - Derbyn yr uchod a'r Clerc yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o hyn i'r Fenter Gymdeithasol.

Aelod yn awgrymu, ar gyfer rhan gyntaf o'r flwyddyn ariannol nesaf, rhoi ystyried ariannol o fewn y Precept ar gyfer y Nadolig yn dref 2019. **Derbyn.**

18/144 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 10.09.2018**

PENDERFYNWYD derbyn fod y Cofnodion yn gywir. Cyng. Margaret Thomas yn cynnig a Cyng. Llinos G. Jones yn eilio. **Derbyn.**

18/145 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 10.09.2018 :**

1 **Eitem 18/145.1 - Toiledau Cyhoeddus y Dref -** Disgwyl ymateb gan Swyddogion yn Gyngor Sir Ynys Môn - **Derbyn**

2 **Eitem 18/145.2 - Tŷ Clwb, Lon Talwrn, Llangefni -** Clerc yn cadarnhau fod y denantiaeth wedi dod i ben a'r goriadau wedi eu dychwelyd i'r Swyddfa.
PENDERFYNWYD - I Aelodau ymweld â'r Adeilad Nos Lun, 8fed o Hydref 2018.

3 **Eitem 18/145.3 - Diogelwch yn ardal yr Ysgol Gyfun -** Disgwyl atebion gan yr Ysgolion cyfagos y gofyn am gefnogaeth i gael arwyddion 20MYA mewn lle gan Gyngor Sir Ynys Môn.

4 **Eitem 18/145.4 - Cyfoeth Naturiol Cymru -** Disgwyl ymateb gan CNC ynglŷn ag amserlen cychwyn ar y system modelu ynglŷn â llifogydd yn y dyfodol. Gwahoddiad i Gyfarfod Llifogydd 8.11.2018 wedi ei dderbyn gan Swyddog Technegydd Llifogydd a Dŵr, Datblygu Cynaliadwy, Cyngor Sir Ynys Môn.

5 **Eitem 18/145.5 - Rheolau Diogelu Data Cyffredinol - GDPR -** Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant Ar Lein a danfon Tystysgrif i'r Swyddfa.

6 **Eitem 18/145.6 - Safle Hafan Cefni -** Disgwyl dyddiad gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn i'r Aelodau ymweld â'r safle.

7 **Eitem 18/145.7 - Penderfyniadau Pwyllgor Cynllunio** - Ail-edrych ar Gofnodion i gael eglurhad ynglŷn â gwneud penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio.

8 **Eitem 18/145.8 - Hen Safle Nwy -** Clerc yn adrodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â Swyddog o Wales & West Utilities Ltd., ynglŷn â'r posibilrwydd o drosglwyddo'r safle yma i'r Cyngor Tref. Disgwyl mwy o wybodaeth gan Wales & West Utilities Ltd. cyn symud ymlaen.

9 **Eitem 18/145.9 - Safle Ysbyty Cefni ger Home Bargains -** Clerc yn adrodd ei fod wedi cysylltu gyda Swyddog o'r Bwrdd Iechyd ynglyn a symud ymlaen i ddefnyddio'r safle yma ar gyfer gosod meinciau a byrddau i'r cyhoedd. Cytundeb yn cael ei baratoi.

10 **Eitem 18/145.10 – Rheolau Sefydlog -** Cadeirydd i arwyddo'r Rheolau Sefydlog cyn eu dosbarthu i'r Aelodau.

Parhad 18/145

11 **Eitem 18/145.11 - Cais Cynllunio 34C263J/SCR - Datblygiad Dafarn Newydd -** Pryder ynglyn a'r gor-ddatblygiad a maint y cais - Cais Cynllunio i gael ei drafod mewn Cyfarfod Llawn.

18/146 **I DDERBYN ARGYMHELLION PWYLLGOR Y FYNWENT A MEYSYDD CHWARAE 27.09.2018**
PENDERFYNWYD i dderbyn yr argymhellion - **Cyng. Dylan W. Rees yn Cynnig – Cyng. Terry Jones yn Eilio. Derbyn.**

18/147

1 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU PWYLLGOR CYNLLUNIO 19.09.2018**
PENDERFYNWYD i dderbyn y penderfyniadau - **Cyng. Dylan W. Rees yn Cynnig – Cyng. John Lee yn Eilio. Derbyn.**

2 **CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO AM GANIATÂD CYNLLUNIO - YSGOL GYNRADD NEWYDD YN LLANGEFNI - YN LLE YSGOL CORN HIR AC YSGOL BODFFORDD :** Aelodau yn awyddus fod ymgynghoriad gyda thrigolion cyfagos. Gofynwyd i'r Clerc ymateb yn awgrymu hyn.

18/148 **I DDERBYN ARGYMHELLION PWYLLGOR STAFFIO A SAFONAU 18.07.2018**
PENDERFYNWYD i dderbyn yr argymhellion - **Cyng. Christine Roberts yn Cynnig – Cyng. John Huw Owen yn Eilio. Derbyn.**
Eitem 18/084 : Cyflogaeth – Diweddariad Cytundeb Codiad Cyflog Staff 2018-2019
Aelod yn gofyn am gadarnhad fod "Job Evaluation" yn cael eu paratoi o flaen y Cyfarfod nesaf ar 31.10.2018. Clerc yn cadarnhau fod Swyddog o'r SLCC yn symud ymlaen gyda hyn.

18/149 **I DDERBYN ARGYMHELLION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL 25.07.2018**
Adroddiad gan y Swyddog Cyfrifol Ariannol yn dilyn y cwestiynau yn codi o'r Cofnodion uchod.
Yn dilyn Cyfarfod Llawn Arbennig 27.09.2018 – **PENDERFYNWYD** i dderbyn y Cyfrifon ac anfon y Ffurflen Flynyddol Blwyddyn 2017/2018 ymlaen i'r BDO.

18/150 **I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER :**

1 **Sul y Maer 30.09.2018 -** Aelod yn llongyfarch y Maer, Cyng. Ieuan G. Davies, ar lwyddiant yr Achlysur. Y Maer yn ateb gan ddiolch i bawb oedd wedi cymryd rhan ac am eu presenoldeb yn y Gwasanaeth. Casglwyd y swm o £280.62 yn ystod y Gwasanaeth a fydd yn cael ei gyfrannu at Gartref Coedlys (Digartref yn Ynys Môn).

2 **Cefnogaeth i gais Môn FM i gael gwell signal radio yn Llangefni -** Y Maer wedi cysylltu gyda Chynrychiolydd o Môn FM gyda chefnogaeth y Cyngor Tref.

3 **Sul y Maer, Cyngor Tref Biwmares 23.09.2018 -** Y Maer a Chadeirydd Cyngor Sir Ynys Mon, wedi mwynhau'r Achlysur.

4 **Sul y Cofio 11.11.2018 –** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau o'r drefn eleni.

18/151 **MATERION YN CODI GAN AELODAU**

Coleg Llandrillo/Menai – Aelod wedi ymddiswyddo fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref.
PENDERFYNWYD – ysgrifennu at y Coleg i ofyn a ydynt yn dymuno i'r Cyngor Tref ethol Cynrychiolydd arall.

18/152 **ADRODDIAD Y CLERC**

1 **Goleuadau Nadolig 2018 –** Wedi ei drafod o dan Eitem 18/143.2 o'r Cofnodion yma.

2 **Neuadd y Sir -** Clerc yn arwain yr Aelodau trwy'r llythyr hunain esboniadwy wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Mon, yn datgan fod cais y Cyngor Tref yn aflwyddiannus.

3 **Safle Cae Criced -** Clerc yn adrodd fod cyfarfod gyda'r Ymddiedolwyr a Chyfreithiwr wedi ei drefnu ar gyfer 2il o Hydref 2018, i drafod y ffordd ymlaen i drosglwyddo'r cae. Adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn nesaf.

4 **Cae Chwarae, Lon Newydd -** Clerc yn adrodd fod Gemau Tîm CPCefni wedi cael eu chwarae ar Gae Ysgol Gyfun Llangefni. Aelod yn adrodd bod Swyddogion y Tîm yma am roi cais i gael golwg ar y gwaith papur swyddogol.

5 **Safle We –** Clerc yn cadarnhau fod y Safle We yn ei le ac yn cael ei weithredu.

18/153 **SEDDI GWAG – WARD CEFNI A CYNGAR**

Clerc yn cadarnhau fod Sedd Wag Ward Cefni wedi cau - Sedd Wag Ward Cyngar yn cau hanner nos 2ail o Hydref 2018.
Clerc yn darllen llythyr wedi ei dderbyn gan un Ymgeisydd. **PENDERFYNWYD** i gyfethol yr Ymgeisydd yma ac anfon llythyr yn datgan hyn.

18/154 **ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL**

13.09.2018 - Cyngor Sir Ynys Mon - Cynllunio Lle y Fforwm Cyswllt - Cynrychiolydd Cyngor Tref wedi mynychu'r Cyfarfod ac yn adrodd yn ôl fod y Fforwm rŵan yn edrych ar Wardiau eraill a ddim Llangefni. Awgrymiad yn ystod y Cyfarfod fod Menter Mon am gynorthwyo drwy baratoi a dosbarthu Holiaduron.
Yn dilyn y Cyfarfod nesaf, bydd Holiaduron ar gael ynglyn a'r Wardiau a bu Medrwn Mon yn gweithio mewn partneriaeth a Chyngor Sir Ynys Mon ar eu Rhaglen Cynllunio Lle i'r Ynys, chytunwyd y byddai'r Rhaglen yn cymryd lle mewn wardiau etholiadol efo cefnogaeth y Cynghorau Tref a Chymuned.

18/155 **CYLLID**

1 **I dderbyn y Fantolen Ariannol ar gyfer Mis Medi 2018.**
Cyng. Dylan W. Rees yn Cynnig – Cyng. Margaret Thomas yn Eilio.

2 **Archwiliad Mewnol - Cyngor Gwynedd Awst 2018 -** Wedi ei drafod yng Nghyfarfod Arbennig 27ain o Fedi 2018.

18/156 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD**

1 **Cyfarfod Llifogydd – Llangefni 8.11.2018 – Derbyn**

2 **Swyddfa Bost, Llangefni – Derbyn e-bost hunain esboniadwy.**

3 **Ysgol Gyfun Llangefni - Cynrychiolydd Bwrdd Llywodraethwyr -** Yn dilyn derbyn gwahoddiad ar gyfer yr uchod – **PENDERFYNWYD –** I ethol Cynrychiolydd. Cyng. Margaret Thomas yn Cynnigy y **Cyng. J. Egryn Lewis** a Cyng. Llinos Jones - yn Eilio – **Derbyn**

4 **Ardal Pen Derwydd –** Wedi ei drafod o dan Eitem 18/143.1 o'r Cofnodion yma.

18/157 **GOHEBIAETH : WEDI EU ANFON ER GWYBODAETH/SYLW**

1 **Un Llais Cymru :** Cyfarfod o Bwyllgor Ardal Ynys Môn 11eg o Hydref 2018 – Cynrychiolydd y Cyngor Tref i adrodd yn ôl.

2 **Materion Eraill – Er gwybodaeth/Sylw - Derbyn**

Cyfarfod Cyhoeddus ynglyn a Pheilonau wedi ei drefnu 28.09.2018 - Gwybodaeth yn yr Hysbysfwrdd.

18/158 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER**

1 **"Gospel Night" gan "Elvis" – 06.10.2018 –** Y Maer wedi derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol yn Eglwys St. Cyngar, Llangefni, er budd Mynwent Eglwys Tregaian.Croeso i bawb - Tocynnau £10.00.

2 **Trefniadau Nadolig 07.12.2018 :**
Y Maer yn cadarnhau gyda'r Aelodau eu bod yn cefnogi a chyd-weithio gyda'r Fenter Gymdeithasol Llangefni - wedi ei drafod o dan Eitem 18/143.2.

3 **Maes Chwarae Lon Las -** Y Maer yn adrodd ynglyn a'r pryderon gydag oriau agor Lon Las. Argymell fod y giatiau yn cael eu cau tu allan i oriau gwaith.
PENDERFYNWYD fod y mater yma yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn o flaen Pwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 28.11.2018.

18/159 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : 5ed o Dachwedd 2018**

Diwedd 8.00y.h.

CADEIRYDD
CYNG. IEUAN G. DAVIES